

Llawlyfr Profiadau Dewisol



TAR gyda SAC
Llwybrau Cynradd ac Uwchradd
13 – 15 Mawrth 2023

BA Addysg Gynradd gyda SAC
19 – 21 Ebrill 2023

Rhesymwaith

Mae gweithgarwch y profiad dewisol yn gyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol na chaiff ei asesu i ddarpar athrawon. Fe'i cynhelir mewn lleoliad ysgol ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o faes sy'n gysylltiedig â diddordeb personol.

Bydd y darpar athrawon yn dilyn pwnc penodol neu thema o ddiddordeb gan gyflawni gweithgareddau megis:

- ❖ Arsylwi;
- ❖ Cynnal cyfweiliadau;
- ❖ Darllen ymchwil;
- ❖ Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol.

Yn ystod yr ymweliad, dyrannir amser ar gyfer gwahanol fathau o weithgarwch er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn ystod eang o brofiadau mewn pwnc/thema dan sylw. Y bwriad yw bod darpar athrawon yn cael profiad y gellir ei gymharu, gan gyfoethogi eu dealltwriaeth a rhoi mantais arbennig iddynt wrth geisio am swyddi mewn ysgolion.

Ar ôl gwneud y profiadau dewisol, mae'r darpar athrawon yn dosbarthu eu canfyddiadau i'r gymuned broffesiynol yn y lleoliad dewisol, er mwyn dangos eu dealltwriaeth a rhannu â'r ysgol elfennau cadarnhaol o'r wybodaeth newydd a enillwyd. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio model arfer da Estyn, sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/improving-wellbeing-and-standards-attainment>.

Gellir defnyddio'r crynodeb o'r profiad dewisol fel ased y cyfeirir ato mewn Templed Profiad Proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r Safonau Proffesiynol priodol (gweler Atodiad 4).

Trefniadau

Fel arfer, cynhelir y profiadau dewisol oddi mewn i'r rhwydwaith lle gosodwyd y darpar athro drwy gydol eu rhaglen AGA. Gwneir trefniadau oddi mewn i'r rhwydweithiau i sicrhau bod diddordebau darpar athrawon yn cyfateb i'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd pob profiad yn amrywio ychydig yn ôl y lleoliad, fodd bynnag, y disgwyl yw y bydd pob darpar athro yn treulio cyfnod sylweddol o amser yn yr ysgol ac y bydd rôl 'cydlynnydd profiadau dewisol' wedi ei dyrannu i aelodau staff yr ysgol ar gyfer y profiad dewisol ar ei hyd. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd am ymgysylltu proffesiynol trwy ddeialog a rhannu syniadau ac adfyfyrdodau. Dylai'r cydlynnydd profiadau dewisol fabwysiadu rôl trafodwr wrth gynnal cyfnod rhannu'r profiadau dewisol.

Disgwyliadau

Rôl y darpar athro:

- ❖ Paratoi ymlaen llaw ar gyfer dewis elfen ddewisol
- ❖ Ymgysylltu'n llawn â phrofiad yr elfennau dewisol er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- ❖ Cynnal ymchwil bersonol sy'n gysylltiedig â'r maes/pwnc
- ❖ Rhannu'r profiad ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd proffesiynol

Rôl yr ysgol:

- ❖ Dyrannu aelod o'r staff yn 'gydlynnydd profiadau dewisol' i'r tîm darpar athrawon
- ❖ Sicrhau y caiff y darpar athrawon gymorth gan aelodau staff allweddol gydol y profiad
- ❖ Darparu ystod eang o gyfleoedd i ddarpar athrawon gasglu gwybodaeth
- ❖ Ymroi i ddeialog adfyfyriol â'r darpar athrawon ar wahanol adegau
- ❖ Croesawu'r arsylwadau a'r sylwadau y mae darpar athrawon yn eu gwneud

Rôl y Brifysgol:

- ❖ Sicrhau y caiff darpar athrawon eu paratoi ar gyfer y profiadau dewisol

Paratoadau darpar athrawon ar gyfer y profiad dewisol

Mae angen i ddarpar athrawon ddangos mesur uchel o ymgysylltu â'r profiad dewisol o'r cychwyn a thystiolaeth o gynnal ymchwil hunangyfeiriol yn eu dewis maes cyn y profiad.

Dylai darpar athrawon ystyried y cwestiynau canlynol wrth ystyried eu dewis o brofiad dewisol:

Cwestiwn 1

A yw'n gysylltiedig ag agwedd ar astudiaeth flaenorol?

A oes tystiolaeth o ymgysylltu â'r maes mewn profiadau eraill e.e. gwirfoddoli yn y gymuned, clybiau a chymdeithasau?

A yw'n gysylltiedig â darpar gynlluniau e.e. y cyfnod neu'r math o ysgol a ddewisir?

Cwestiwn 2

Pa ddarllen allweddol rydych eisoed wedi ei wneud?

Ydych chi'n dewis ar sail wybodus er mwyn elwa'n llawn o'ch profiad?

Allwch chi sôn rhywbeth am beth o'ch darllen allweddol i gyfiawnhau eich dewis?

Cwestiwn 3

Beth ydych chi'n bwriadu ei ddysgu o'r profiad dewisol?

Pa linellau ymholi sydd wedi codi o'ch darllen?

Ydych chi wedi llunio rhai cwestiynau ymchwil?

Pa fethodolegau y gallech chi eu defnyddio?

Rhestr Wirio Profiadau Dewisol ar gyfer Arweinyddion Rhwydweithiau

Ydw i wedi ?

Cyn y profiad Dewisol	
Adolygu disgwyliadau'r Ysgol Arweiniol fel y nodwyd yn y ddogfennaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol	
Cofnodi 'Profiadau Dewisol' fel eitem ar agenda'r cyfarfod rhwydwaith	
Cytuno ar ddewislen o gyfleoedd dewisol gydag ysgolion partner	
Cysylltu â'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) i gadarnhau'r arlwy o brofiadau dewisol ar gyfer y rhwydwaith	
Cysylltu â'r ysgolion partner i sicrhau eu bod yn deall eu rôl o ran cyflwyno'r profiadau dewisol	
Cwrdd â staff allweddol sy'n arwain ar brofiadau dewisol yn yr Ysgol Arweiniol i egluro'r disgwyliadau o ran cyflwyno a chefnogi darpar athrawon	
Cytuno ar amserlen o weithgareddau gyda staff allweddol sy'n arwain ar brofiadau dewisol	
Ymgorffori cyfle i gyfarfod gyda darpar athrawon o fewn yr amserlen o weithgareddau. Y diben yw monitro cynnydd a dynodi unrhyw anghenion ychwanegol neu eglurhad pellach	
Sicrhau ansawdd profiadau gyda staff sy'n arwain ar y profiadau dewisol	
Rhannu trefniadau'r Ysgol Arweiniol fel 'model' ar gyfer i'r ysgolion lleoliad o brofiad dewisol	
Trefnu adnoddau ar gyfer y profiadau a lanlwytho'r rhain i ardal a rennir fel y gellir cael mynediad iddynt drwy'r rhwydwaith	
Cysylltu ag ysgolion lleoliad i gwblhau'r trefniadau	
Cwblhau a rhannu'r trefniadau ar gyfer y profiadau dewisol gyda'r Tiwtor Proffesiynol/darpar athrawon	
Neilltuo cyllid priodol ar gyfer y gweithgareddau a gytunwyd	
Ar ôl y Profiad Dewisol	
Adolygu'r gwerthusiadau a ddarparwyd gan y darpar athrawon	
Casglu adborth gan staff sy'n arwain ar brofiadau dewisol	
Gwerthuso profiadau dewisol fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y rhwydwaith	
Rhannu adborth gyda'r rhwydwaith o rwydweithiau a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol	

Rhestr Wirio Profiadau Dewisol ar gyfer Uwch Fentoriaid

Ydw i wedi ?


Cyn y profiad Dewisol	
Adolygu disgwyliadau'r ysgol lleoliad fel y nodwyd yn y ddogfennaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol	
Cysylltu ag Arweinydd y Rhwydwaith i gadarnhau'r arlwy o ran y profiadau dewisol ar gyfer y rhwydwaith	
Cysylltu ag Arweinydd y Rhwydwaith i sicrhau dealltwriaeth o rôl yr ysgol lleoliad wrth gyflwyno profiadau dewisol	
Cwrdd â staff allweddol sy'n cydlynu'r profiadau dewisol i egluro'r disgwyliadau o ran cyflwyno a chefnogi darpar athrawon	
Cytuno ar amserlen o weithgareddau gyda staff allweddol sy'n cydlynu'r profiadau dewisol	
Ymgorffori cyfle i gyfarfod gyda darpar athrawon o fewn yr amserlen o weithgareddau. Y diben yw monitro cynnydd a dynodi unrhyw anghenion ychwanegol neu eglurhad pellach	
Sicrhau ansawdd profiadau gyda staff sy'n cydlynu'r profiadau dewisol	
Trefnu adnoddau ar gyfer y profiadau a lanlwytho'r rhain i ardal a rennir fel y gellir cael mynediad iddynt drwy'r rhwydwaith	
Cwblhau a rhannu'r trefniadau ar gyfer y profiadau dewisol gyda'r darpar athrawon trwy Arweinydd Rhwydwaith/ Tiwtor Proffesiynol	
Cyflwyno anfoneb ar gyfer ariannu'r profiadau dewisol	
Ar ôl y Profiad Dewisol	
Adolygu'r gwerthusiadau a ddarparwyd gan y darpar athrawon	
Casglu adborth gan staff sy'n arwain ar brofiadau dewisol	
Cyfrannu at werthuso'r profiadau dewisol yn y cyfarfod rhwydwaith nesaf	

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg:

Disgwylir proffesiynoldeb yn unol â chod ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg gan bob rhanddeiliad drwy gydol y profiad:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html>


Mae gwneud cysylltiadau â newidiadau presennol yn y polisi addysg yn hollbwysig, felly'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn llywio meddylfryd y darpar athrawon yw'r pedwar diben a gynigir gan Donaldson (2015).



Donaldson (2015)

Yn ogystal, bydd y darpar athrawon yn cyflawni'r gweithgaredd mewn rôl ymarferydd adfyfyriol drwy ddilyn y model a amlinellir isod:

Meddwl a
Gwerthuso



Meddwl ac Ymchwil

Meddwl ac Adfyfyrio

Yr Athrofa (2017)

Paratodau'r Ysgolion sy'n Derbyn Darpar Athrawon ar gyfer Profiadau Dewisol

- Dylai ysgolion baratoi amserlen sy'n rhoi cyfle eang i ddarpar athrawon gasglu gwybodaeth am eu maes diddordeb.
- Gall yr amserlen gynnwys amser a arweinir yn ogystal â slotiau gwaith annibynnol ar gyfer darpar athrawon.

Efallai y bydd yr enghreifftiau canlynol o gymorth wrth gynllunio amserlen.

Strwythur posibl ar gyfer y Profiad Dewisol (Sylwer: gall ysgolion fod yn hyblyg)

Lleoliad a Dyddiad	Gweithgarwch
Diwrnod 1 Ysgol Profiad Dewisol Cwrdd	Cwrdd – Cynefino • Diwrnod cynefino fydd y diwrnod cyntaf er mwyn dod i adnabod yr ysgol e.e. disgwyliadau ynghylch cyrraedd/ystafell ganolog, gwybodaeth am yr ysgol, taith ddysgu o amgylch yr ysgol, gweledigaeth yr ysgol, gwaith yn y gymuned • Dylai'r ysgol gyfleu ei pholisïau/gweledigaeth/arfer o ran maes diddordeb profiad dewisol y darpar athrawon. • Bydd y darpar athrawon hefyd yn rhannu'r maes ffocws a ddewiswyd ar y diwrnod hwn. Bydd hwn hefyd yn gyfle i holi cwestiynau. • Mae angen i'r darpar athro sicrhau bod ei gofrestr/ffurflenni caniatâd wedi'u llofnodi gan yr aelodau staff priodol (Atodiad 1 a 2)
Diwrnod 2 Ysgol Profiad Dewisol Prawf	Profi – Casglu Data Mae darpar athrawon yn dechrau dilyn eu llinellau ymholi drwy gyflawni cyfnodau arsylwi perthnasol mewn dosbarthiadau amrywiol. Dulliau posibl o gasglu data: • Nodiadau naratif • Siartiau symudiadau (neu ddiagramau cymdeithasol) • Cynllun dosbarth • Ffotograffau • Mapiau swigod • Padlet

Diwrnod 3 Ysgol Profiad Dewisol Adfyfyrio	Profi - Adfyfyrio wrth baratoi i <i>Rannu</i> canfyddiadau â'r ysgol sy'n leoliad i'r profiad dewisol ar ffurf crynodeb ar OneDrive a TPP PDP • Diwrnod adfyfyriol fydd hwn i roi cyfle i staff a darpar athrawon drafod y wybodaeth a gasglwyd hyd yma • Yn ystod y cyfnod hwn, dylai fod cyfleoedd i ddarpar athrawon ddefnyddio'r darllen cefndirol a wneir, gan eu cysylltu â'r arfer a arsylwyd a datblygu dadansoddiad beirniadol, gan ddechrau â thrafodaeth a all gefnogi crynodeb terfynol y darpar athrawon a naratif TPP PDP • Dylai darpar athrawon ddefnyddio'r amser i adolygu ac egluro unrhyw agwedd ar eu hymchwil sydd heb ei hateb e.e. drwy gyfweiliad â'r cydlynnydd perthnasol, gan gynnal llais disgyblion • Dylid rhannu'r canfyddiadau â chyfoedion er mwyn eu hystyried yn feirniadol Awgrym ar gyfer strwythur crynodeb y profiad dewisol i'w leoli yn Adran 3 y ffolder Cynllunio ar OneDrive a'i ddefnyddio fel ased ar gyfer gwblhau TPP: - Rhesymwaith dros y profiad dewisol - Amlinelliad o weithgareddau o wythnos y profiadau dewisol - Cyd-destun yr ysgol - Yr hyn rwyf wedi'i ddysgu o'r llenyddiaeth - adolygiad - Yr hyn rwyf wedi'i weld yn ymarferol - Dull casglu data - Safbwyntiau disgyblion - Safbwyntiau athrawon - Cyfyngiadau/llwyddiant casglu data - Cwestiynau heb eu hateb o hyd - Beth y galla i ei ddefnyddio yn fy ymarfer fy hun? - Rhestr gyfeiriadau o'r llenyddiaeth a ddefnyddir [Gweler Llawlyfr - Cyfeirnoddi Harvard y Brifysgol]
--	--

Enghraifft o gyfres o gamau a gymerwyd gan ddarpar athrawon i atgyfnerthu ymgysylltiad yr holl randdeiliaid yn y profiad dewisol

Cynefino

- Dod i adnabod yr ysgol a'i disgwyliadau e.e. cyrraedd/ystafell ganolog, gwybodaeth am yr ysgol, gweledigaeth yr ysgol ac unrhyw wybodaeth y mae'r ysgol yn dymuno ei rhannu.
- Darpar athrawon i rannu ffocws eu profiad dewisol a derbyn llofnod ar y gofrestr/ffurflenni caniatâd (Atodiad 1 a 2).
- Darpar athrawon i sicrhau y cesglir yr holl wybodaeth berthnasol am yr ysgol er mwyn llywio y rhan gyntaf o adroddiad adfyfyriol i'r ysgol.

Ethos, gwerthoedd a chasglu data

- Darpar athrawon i gael dealltwriaeth o ethos a gwerthoedd yr ysgol – bydd y strategaethau casglu data wedi cael eu trafod yn y Brifysgol, ac atgyfnerthwyd ystyriaethau moesegol sy'n ymwneud â chyfranogiad a chydsyniad disgyblion yn y modwl ymchwil. Casglu data posibl drwy nodiadau naratif; siartiau symudiadau; cynllun yr ystafell ddosbarth; ffotograffau; mapiau swigod; padlet ac ati.

Adfyfyrio a chynllunio i brofi

- Cydlynnydd profiad dewisol ysgolion i gefnogi trafodaeth ar ymchwil darpar athrawon a hwyluso gweithgareddau i'w galluogi i ddatblygu eu hymgysylltiad ymhellach e.e. teilwra cyfleoedd iddynt ateb cwestiynau mewn perthynas â'u maes ffocws.
- Darpar athrawon i fireinio eu cwestiynau e.e. defnyddio map meddwl o gwestiynau a ysgogwyd gan drafodaeth sy'n gysylltiedig â chyfleoedd sydd wedi'u teilwra ac y cytunwyd arnynt. Er enghraifft, defnyddio:



- Darpar athrawon i gydweithio â staff yr ysgol i gasglu data yn eu maes dewisol. Gellir defnyddio'r adroddiad adfyfyriol (Atodiad 4) i gofnodi'r gweithgaredd hwn er enghraifft:

Cyfweld â'r cydlynnydd perthnasol; polisïau darllen; cysgodi aelod staff; casglu tystiolaeth o lais y disgybl; cysylltiadau cymunedol, cysylltiadau amlasiantaethol, rhieni; cyfleoedd DPP yn y maes ymchwil; defnydd o holiadur, cyfweiliad, data gweledol; cysylltiadau â'r pedwar diben; cysylltiadau posibl â chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd; materion ehangach – pontio, data ysgolion.

Awgrymiadau yw'r rhain ac nid rhestr gynhwysfawr. Dylai'r fethodoleg ddeillio o drafodaeth rhwng y darpar athro, yr ysgol a staff y Brifysgol.

Adfyfyrio, adolygu ac egluro cyn rhannu

Darpar athrawon i adolygu eu tystiolaeth a gofyn am eglurhad pan fydd angen wrth baratoi i ysgrifennu crynodeb o'r profiad dewisol a leolir yn ei ffolder OneDrive. Yna, defnyddir y crynodeb fel ased wrth baratoi'r naratif TPP PDP a fydd ar gael i'w rannu â phawb sydd â mynediad i PDP y darpar athro. (Gweler Atodiad 4).

Yn dibynnu ar ffocws y profiad dewisol a ddewisir, bydd cyfleoedd i'r darpar athro ddefnyddio yr adfyfyrio yn deillio o'r profiad dewisol i lenwi nifer o'r penawdau yn perthyn i'r safonau proffesiynol sydd i'w gweld yn adran gweithlyfr y Safonau Proffesiynol o'r PDP **(Tab 6)**. Er enghraifft:

- **"Addysgeg, Addysgu a Dysgu"** – Y pedwar diben; Themâu trawsgwricwlaidd; Rheoli'r amgylchedd dysgu; Cynnwys partneriaid mewn dysgu.
- **"Arweinyddiaeth"** – Cymryd cyfrifoldeb personol.
- **"Dysgu proffesiynol"** – Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil; Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol; Dysgu proffesiynol parhaus.
- **"Cydwethredu"** – Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol.

Gellir defnyddio'r Cofnod Tystiolaeth Ymholi Darpar Athrawon (STEER) i helpu i gofnodi tystiolaeth ystyrlon a phwrrpasol bosibl (gweler Atodiad 4).

Atodiad: 1

Cofrestr Bersonol

Enw:

Rhif Darpar Athro:

Ysgol/Lleoliad:

Dyddiad	Y Gweithgaredd a Wnaed	Llofnod (mentor, uwch fentor neu bennaeth)

Atodiad: 2



Ffurflen ganiatâd

Rhaid i ddarpar athrawon gael y caniatâd ysgrifenedig canlynol gan y pennaeth cyn tynnu lluniau, ffilmio neu recordio llais dysgwyr.

Rwy'n cytuno i _____ yn gynrychiolydd i'r Athrofa wneud y canlynol:

Tynnu lluniau
Gwneud ffilm fideo
Recordio llais

Cyfweld
Dyfynnu dogfennau polisi'r ysgol
Holiaduron (Ticiwch fel y bo'n briodol)

Enw'r Pennaeth _____ Llofnodwyd _____

Enw'r ysgol _____

I'w gwblhau gan y darpar athro:

Os caf y caniatâd hwn, cytunaf i gadw at y foeseg a ymgorfforir yng Nghod Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg ac ni fyddaf yn dosbarthu unrhyw ran o'r deunydd hwn i gynulleidfaoedd y tu hwnt i awdurdodau'r Brifysgol heb eu caniatâd.

Enw'r darpar athro:
Llofnodwyd:

Rhif ffôn:
Cyfeiriad e-bost:

Rhaglen (e.e. BA Addysg Gynradd gyda SAC/TAR Cynradd/TAR Uwchradd):
Dyddiad:

Atodiad: 3

Darllen ac Ymchwil o ffynonellau gwybodaeth:

1.

2.

3.

4.

5.

Dyddlyfr Adfyfyriol: Arsylwadau cyffredinol/casglu data:

Dyddiad	Digwyddiad	Sylwadau

Atodiad: 4

PDP A CHYSYLLTIADAU Â'R SAFONAU PROFFESIYNOL

Bydd eich profiad dewisol yn eich cynorthwyo i ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol. Ystyriwch sut y gallech ddefnyddio'r profiad i greu Templedi Profiad Proffesiynol (TPP) ar gyfer Tab 6 (Gweithlyfr Safonau Proffesiynol).

Cofiwch mai dim ond uchafswm o dri o'r is-benawdau y gallwch eu cysylltu o fewn pob safon â Thempled Profiad.

Gellid defnyddio'r crynodeb gweithredol sydd wedi ei storio yn eich OneDrive ac yn gysylltiedig â'r profiad hwn fel ased ar gyfer TPP eich PDP



ADDYSGEG Yn ystod eich cyfnod prawf a wnaethoch chi ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu gyda'r deilliannau canlynol? Mireinio: - Rheoli'r amgylchedd dysgu - Asesiad - Gwahaniaethu - Cofnodi ac adrodd - Cynnwys partneriaid yn y dysgu. Hyrwyddo: - Pedwar diben i ddysgwyr - Manteisio ar ddisgyblaethau pwnc mewn meysydd dysgu - Profiadau dysgu cyfunol - Bywyd go iawn, cyd-destunau dilyl - Dilyniant mewn dysgu - Themâu trawsgwricwlaidd Dylanwadu ar ddysgwyr: - Her a disgwyliadau - Gwrando ar ddysgwyr - Dysgwyr sy'n arwain dysgu - Ymdrech barhaus a gwydnwch mewn dysgwyr - Myfyrio ar ddysgu - Deilliannau a lles dysgu.	
CYDWEITHREDU A oedd cyfleoedd i weithio'n gynhyrchiol gyda'r holl bartneriaid mewn dysgu er mwyn ymestyn effeithiolrwydd proffesiynol?	
ARLOESI A wnaethoch chi ddefnyddio golwg arloesol wedi ei enghreifftio drwy ddatblygu technegau a dulliau gweithredu wedi eu rheoli a'u mesur i wella canlyniadau addysgeg?	

DYSGU PROFFESIYNOL A oedd cyfleoedd i ymestyn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a gallant ddangos sut mae myfyrio a bod yn agored i herio a chefnogi yn llywio dysgu proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol.	
ARWEINYDDIAETH A oedd cyfleoedd i gefnogi ymdrechion eraill ar draws yr ysgol a thu hwnt er mwyn cyflawni uchelgeisiau addysgol Cymru?	